# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 10 Medi 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**David Davies (Mynwy);** A oes ymchwiliad wedi ei gynnal i ddichonolrwydd darparu Uned yn y Fenni i blant â phroblemau cymhleth ac anghenion arbennig. (WAQ27930)

**David Davies (Mynwy);** Faint o blant ag anghenion arbennig o'r Fenni sy'n mynd i Uned Anghenion Arbennig Overmonnow, gan gynnwys y rhai a fydd yn trosglwyddo ym mis Medi. (WAQ27931)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog yn bwriadu diwygio Rheoliadau Safleoedd Ysgolion 1999 (y fformiwla Cofrestru Mwy Agored) a pha ganllawiau mae'r Gweinidog wedi eu rhoi i Awdurdodau Addysg Lleol o ran dehongli Cofrestru Mwy Agored. (WAQ27943)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ganllawiau mae'r Gweinidog wedi eu rhoi i Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer ystyried cau ysgolion, a yw'r canllawiau yn cynnwys cyngor ar y meini prawf y dylai AALl eu defnyddio wrth benderfynu ar gynigion i gau ysgolion ac a yw'r meini prawf hyn yn wahanol pan fydd Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn cael eu hystyried. (WAQ27944)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ddisgresiwn a ddefnyddir gan Awdurdodau Addysg Lleol wrth ddefnyddio Cofrestru Mwy Agored, ac a yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw ddehongliad arbennig o Gofrestru Mwy Agored gan AALl Powys. (WAQ27945)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw amcan gost gweithredu'r Cytundeb Llwyth Gwaith yng Nghymru. (WAQ27946)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw amcan gost gweithredu'r Cytundeb Llwyth Gwaith ym Mhowys. (WAQ27947)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o arian a ddyrannwyd gan y Gweinidog i Gyngor Sir Powys ar gyfer gweithredu'r Cytundeb Llwyth Gwaith. (WAQ27948)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Ar wahân i Grantiau Dysgu'r Cynulliad, pa gynlluniau eraill sydd gan y Gweinidog i helpu myfyrwyr i ddygymod â baich ffioedd dysgu.

(WAQ27956)

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl gallu cyhoeddi ei phenderfyniad ar ad-drefnu ysgolion yn ardal y Fenni yn Sir Fynwy. (WAQ27964)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**David Davies (Mynwy);** Pam nad yw triniaeth Forsteo ar gael trwy Feddygon Teulu. (WAQ27937)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** Pa wasanaethau iechyd galwedigaethol sydd ar gael i Feddygon Teulu a'u staff ledled Cymru ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyn. (WAQ27936)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** Sut mae darpariaeth gwasanaethau iechyd galwedigaethol yng Nghymru ar gyfer Meddygon Teulu a'u staff yn cymharu â'r ddarpariaeth yn: a) Lloegr, a b) gweddill y Deyrnas Unedig (WAQ27934)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** O'r gwasanaethau iechyd galwedigaethol a ddarperir ar gyfer Meddygon Teulu a'u staff, a ydynt ar gael yn unffurf ar draws y Byrddau Iechyd Lleol ledled Cymru. (WAQ27935)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddilyn esiampl yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd trwy drefnu rhaglen o ymweliadau ag ysbytai'r GIG yng Nghymru yn y dyfodol agos. (WAQ27938)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar deimladau'r mwyafrif o Feddygon Teulu a gymerodd ran mewn arolwg gan yr Institute of Healthcare Management and Developing Patient Partnerships, sef y dylid codi tâl ar gleifion sy'n colli eu hapwyntiad. (WAQ27941)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** Yn dilyn penodiad Darpar Brif Weithredwr y Commission for Patient and Public Involvement in Health, a wnaiff y Gweinidog egluro cyfrifoldebau'r swydd mewn perthynas â Chymru. (WAQ27942)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pam y mae nifer y bobl yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 18 mis am apwyntiad fel claf allanol wedi cynyddu o 951 ym mis Mai 1999 i 9,141 erbyn diwedd mis Gorffennaf 2003, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ27966)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pam y mae nifer y bobl yng Nghymru sy'n aros yn hwy na na 18 mis i gael eu derbyn fel cleifion mewnol a chleifion dydd wedi cynyddu o 605 ym mis Mai 1999 i 5,846 erbyn diwedd mis Gorffennaf 2003, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ27967)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro pam y mae ffigyrau rhestrau aros cleifion allanol ysbytai ledled Cymru wedi cynyddu o 114,878 ym mis Mai 1999 i'r ffigwr cyfredol o 222,223 erbyn diwedd mis Gorffennaf 2003, ac a wnaiff ddatganiad. (WAQ27968)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw'r cynnydd o 107,345 yn nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth yn yr ysbyty fel cleifion allanol yng Nghymru ers mis Mai 1999 yn cydfynd â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ27969)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw'r cynnydd o 24,412 yn nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth yn yr ysbyty fel cleifion mewnol neu gleifion dydd yng Nghymru ers mis Mai 1999 yn cydfynd â thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ27970)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro pam y mae ffigyrau'r rhestrau aros ar gyfer cleifion mewnol a chleifion dydd wedi cynyddu o 53,014 ym mis Mai 1999 i'r ffigwr cyfredol o 77,418 ar ddiwedd mis Gorffennaf 2003, ac a wnaiff ddatganiad. (WAQ27971)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa resymau y gall y Gweinidog eu rhoi am: a) y 187 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 18 mis am driniaeth wrolegol, a b) y 4,988 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros am y driniaeth hon. (WAQ27972)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw'r ffigwr o 187 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 18 mis am driniaeth wrolegol yn cydfynd â thargedau Llywodraeth y Cynulliad, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ27973)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa resymau y gall y Gweinidog eu rhoi am: a) y 78 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 18 mis am driniaeth gynecolegol, a b) y 5,084 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros am y driniaeth hon. (WAQ27974)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw'r ffigwr o 78 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 18 mis am driniaeth gynecolegol yn cydfynd â thargedau Llywodraeth y Cynulliad, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ27975)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa resymau y gall y Gweinidog eu rhoi am: a) a) y 3,361 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 18 mis am driniaeth ar y glust, y trwyn a'r gwddf, a b) y 12,270 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros am y driniaeth hon. (WAQ27976)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw'r ffigwr o 3,361 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 18 mis am driniaeth ar y glust, y trwyn a'r gwddf yn cydfynd â thargedau Llywodraeth y Cynulliad, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ27977)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa resymau y gall y Gweinidog eu rhoi am: a) y 1,721 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 18 mis am driniaeth lawfeddygol gyffredinol, a b) y cyfanswm o 17,289 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros am y driniaeth hon. (WAQ27978)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw'r ffigwr o 1,721 o gleifion GIG yng Nghymru sy'n aros yn hwy na 18 mis am driniaeth lawfeddygol gyffredinol yn cydfynd â thargedau Llywodraeth y Cynulliad, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ27979)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** a) Pa resymau y gall y Gweinidog eu rhoi am y gwahaniaeth amlwg rhwng yr amseroedd aros y'u cofnodwyd gan Swyddfa Rhanbarth y Gogledd a Swyddfa Rhanbarth y De y GIG ar gyfer cleifion mewnol ysbytai, a b) a yw darpariaeth ddemograffig gyfrannol y gwasanaethau iechyd yr un peth ar gyfer y ddau ranbarth. (WAQ27980)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pam y mae rhestrau aros yng Nghymru yn parhau i godi yn gyffredinol, tra bod yr ystadegau cymharol yn Lloegr yn dangos gostyngiad o ran amseroedd aros, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad. (WAQ27981)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi pam y mae 4 o gleifion yng Nghymru yn aros yn hwy na 6 mis i gael angiograffi. (WAQ27982)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 493 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 3,364 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27983)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 253 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Tor-faen, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 2,682 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27984)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 475 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 5,790 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27985)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y

rhesymau pam y mae 350 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 3,908 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27986)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 170 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 2,354 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27987)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 141 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 1,470 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27988)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 1,163 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 7,729 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27989)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 501 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 4,827 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27990)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 256 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 2,109 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27991)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 33 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 2,962 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth

ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27992)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 18 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 1,345 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27993)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 42 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 2,387 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27994)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 32 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 3,149 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27995)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 55 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 2,399 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27996)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 50 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Conwy, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 2,825 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27997)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 97 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Powys, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 2,976 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27998)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 636 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 6,641 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ27999)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 81 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 4,171 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ28000)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 287 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 3,960 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ28001)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 126 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 2,103 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ28002)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 256 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 4,263 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ28003)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y canlynol: a) y rhesymau pam y mae 331 o gleifion yn aros yn hwy na 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, b) y rhesymau pam y mae cyfanswm o 3,600 o gleifion yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol neu driniaeth ddydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwn, ac c) pa gynlluniau penodol sydd ganddi i leihau'r nifer hwn fel mater o frys. (WAQ28004)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r mudiadau gwirfoddol: a) y mae'n bwriadu eu cynnwys yn y broses o lunio ei strategaeth ar gyfer trin diabetes, a b) sydd wedi mynegi diddordeb mewn cael eu cynnwys yn y broses honno. (WAQ28005)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyfran o'r cleifion GIG sy'n mynd i'r ysbyty yng Nghymru sy'n achosion brys, a sut y mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa: a) yn Lloegr, a b) yng ngweddill y Deyrnas Unedig. (WAQ28006)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A ydyw Cyfarwyddwr GIG Cymru wedi sefydlu tîm eto i archwilio'r argymhellion a geir yn yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. (WAQ28007)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Ar ba gam y mae cynllun cyflawni yr argymhellion a geir yn yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, sydd ar hyn o bryd yn cael ei sefydlu gan Gyfarwyddwr GIG Cymru, ac a wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ar hynt y gwaith. (WAQ28008)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ar hynt y Grwp Cynghori a sefydlwyd i ystyried rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd Pobl Hy^n. (WAQ28009)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae'n ei wneud i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed yn y gweithle. (WAQ28010)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa fentrau y mae'r Gweinidog wedi'u cychwyn yng Nghymru i nodi Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl, ac a wnaiff hi ddatganiad. (WAQ28012)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa bwerau statudol fydd gan y Comisiynydd Pobl Hy^n, yn enwedig mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hawliau dynol. (WAQ28013)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A gynhaliwyd unrhyw waith ymchwil i effaith argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001 ar iechyd a lles y bobl hynny yng Nghymru yr effeithwyd arnynt gan yr argyfwng, ac os y cynhaliwyd unrhyw waith ymchwil, pryd y bydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi. (WAQ27965)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei pholisïau sydd wedi'u targedu at gynorthwyo cleifion sy'n dioddef o ME a Syndrom Blinder Cronig. (WAQ28020)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa ganllawiau sydd ar gael i gynorthwyo'r Byrddau Iechyd Lleol wrth iddynt gomisiynu triniaeth ar gyfer cleifion sy'n dioddef o ME a Syndrom Blinder Cronig. (WAQ28021)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa amserlen sydd wedi'i phennu er mwyn cyflawni polisïau ar gyfer cleifion sy'n dioddef o ME a Syndrom Blinder Cronig. (WAQ28022)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r symiau cyfalaf a

fuddsoddwyd mewn rhaglenni adeiladu ysbytai ar gyfer pob un o'r 5 mlynedd diwethaf a'r gwariant a ragwelir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. (WAQ28023)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amseroedd aros ar gyfer trin cleifion mewnol ac allanol yng Ngwent. (WAQ28024)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynlluniau i leihau'r amseroedd aros ar gyfer trin cleifion mewnol ac allanol yng Ngwent. (WAQ28025)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru cyfanswm nifer y gwelyau ar gyfer yr henoed bregus eu meddwl rhwng Prestatyn a Bae Colwyn (gan nodi'r ffigurau yn y GIG a'r sector preifat). (WAQ27932)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Faint o welyau i'r henoed bregus eu meddwl sydd ar gael ar hyn o bryd (nad ydynt yn cael eu defnyddio), sy’n barod i gael eu defnyddio, rhwng Prestatyn a Bae Colwyn – gan nodi’r ffigurau yn y GiG a'r sector preifat. (WAQ27933)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro pwerau a swyddogaethau'r cynghorau iechyd cymunedol. (WAQ27954)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Yn dilyn WAQ27826, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa 4 Ymddiriedolaeth y GIG oedd wedi methu â chyflawni'r targed ac o ba ganran yr oeddent dros y targed. (WAQ27955)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, Network Rail neu Arriva ynghylch cynllunio i uwchraddio signalau yn ardal Port Talbort y brif reilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe. (WAQ27939)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd newidiadau yn cael eu gwneud i'r cynlluniau presennol wella ffordd yr A470 Maes yr Helmau i Cross Foxes yn Nolgellau. (WAQ27940)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog yn rhagweld y bydd Un Llais Cymru yn dod i rym ar 1 Ebrill 2004, yn ôl yr hyn a fwriadwyd. (WAQ27949)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd fydd yr 'Astudiaeth Gwmpasu' ar

Gynghorau Cymuned sydd ar hyn o bryd yn cael ei baratoi gan Brifysgol Cymru yn cael ei chyflwyno i'r Gweinidog ac yn cael ei chyhoeddi. (WAQ27950)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl cymeradwyo Cynllun Busnes Un Llais Cymru. (WAQ27951)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw amcan gost blynyddol gwneud cyflogau cynghorwyr yn bensiynadwy i'r sector cyhoeddus. (WAQ27952)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o gynghorwyr yng Nghymru sy'n gymwys i elwa o dan y cynllun tâl diswyddo arfaethedig, a beth fyddai'r amcan gost pe baent i gyd yn penderfynu derbyn y taliadau hynny. (WAQ27953)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl un o'r pedwar sefydliad a lofnododd y Protocol 'Un Llais Cymru' yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 2 Ebrill 2003, sy'n parhau i fod yn hollol ymrwymedig i'w weithredu. (WAQ28011)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r broses y mae'n rhaid i Gynghorwyr ei dilyn i fod yn gymwys i dderbyn 'tâl ymadael'. (WAQ27957)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Faint o arian y mae'r Gweinidog wedi ei ddyrannu ar gyfer y cynllun 'tâl ymadael' i Gynghorwyr. (WAQ27958)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Sut mae'r arian ar gyfer y 'tâl ymadael' i Gynghorwyr wedi cael ei godi. (WAQ27959)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Yn ôl amcangyfrif y Gweinidog, tua faint o gynghorwyr fydd yn manteisio ar y 'tâl ymadael' adeg etholiadau Llywodraeth Leol 2004. (WAQ27960)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau sydd wedi eu cymryd i atal Cynghorwyr sy'n derbyn y 'tâl ymadael' rhag sefyll mewn etholiadau yn y dyfodol. (WAQ27961)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi yn ddiweddarach yn y mis ei phenderfyniad ynghylch a ddylid cynnal Etholiadau Llywodraeth Leol 2004 ar 10 Mehefin. (WAQ27962)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y mae rhoi hyd at £20,000 i Gynghorwyr i'w hannog i sefyll lawr yn cynrychioli gwerth am arian. (WAQ28014)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** Y dilyn WAQ27786 a wnaiff y Gweinidog gadarnhau pwerau, cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. (WAQ27963)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei drafodaethau'n ymwneud â'r cynlluniau arfaethedig i gael Stadiwm newydd ar gyfer Tîm Pêl-droed Caerdydd. (WAQ28017)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro pam ei fod yn araf yn cyhoeddi a yw'n cefnogi'r cynlluniau i gael Stadiwm newydd ar gyfer Tîm Pêl-droed Caerdydd ai peidio. (WAQ28018)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pan fo cais cynllunio yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus, i ba raddau y gall llythyrau gan y cyhoedd at y Gweinidog, o blaid neu'n erbyn y cais, effeithio ar ganlyniad yr ymchwiliad. (WAQ28019)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael neu y soniwyd wrtho amdanynt yn ymwneud ag unrhyw gynlluniau i addasu trefn Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad. (WAQ28015)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael neu y soniwyd wrtho amdanynt yn ymwneud â'r cynlluniau arfaethedig i gael Stadiwm newydd ar gyfer Tîm Pêl-droed Caerdydd. (WAQ28016)